amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Stori 1 Abraham yn gwrando ar Dduw

DARLLENWCH
Genesis 22: 1-9

Mae'r stori yma'n sôn am:
Caru Duw yn fwy na dim

Un diwrnod, gofynnodd Duw i Abraham wneud rhywbeth anodd iawn. "Cymer dy fab, Isaac," meddai Duw "a'i roi nôl i mi".

Roedd Abraham i fod i fynd ag Isaac i fynydd yng ngwlad Moreia. Yno, roedd i fod i'w ladd a'i roi'n rhyw fath o anrheg i Dduw. Roedd Abraham yn caru Isaac yn fawr iawn ond roedd yn caru Duw yn fwy.

Pwy oedd Abraham yn ei garu fwyaf – Duw neu Isaac?

Lliwiwch y llun o Abraham ac Isaac.

Enw

DARLLENWCH
Genesis 22: 9-14

Mae'r stori yma'n sôn am:
Hwrdd yn cymryd lle Isaac

Stori 2 Abraham yn ufudd i Dduw

Wrth i Dduw siarad, cododd Abraham ei ben a gweld hwrdd wedi'i ddal wrth ei gyrn mewn drain. Rhoddodd yr hwrdd ar yr allor yn lle Isaac. Lladdodd yr hwrdd yn lle Isaac.



Anfonodd Duw ei Fab, Iesu, i'r byd ac fe gafodd ei hoelio ar groes.

Roedd yn fodlon marw droson ni. Doedd neb i gymryd lle Iesu.

Ydych chi'n caru Iesu?

Pwy fu farw droson ni ar y groes?

I _ _ _ G _ _ _ _

Lliwiwch y lluniau.

Lliwiwch y geiriau a dysgu'r adnod sy'n sôn am Iesu.

"Mae Mab Duw .... wedi fy ngharu i a'i roi ei hun yn aberth yn fy lle i.

Galatiaid 2: 20

Enw

DARLLENWCH
Genesis 24: 1-28

Mae'r stori yma'n sôn am:
Duw'n dangos y ffordd

Stori 3 Duw'n helpu

Ydych chi'n gweld y dyn sy'n siarad â'r ferch yn y llun? Gwas Abraham yw'r dyn. Mae wedi dod ar daith bell. Anfonodd Abraham ef i chwilio am wraig i'w fab, Isaac.

Gofynnodd y dyn i Dduw ei helpu i ddod o hyd i'r ferch iawn.

Arhosodd y dyn ger ffynnon. Roedd llawer o ferched yn dod at y ffynnon. Rhoddodd un ferch, o'r enw Rebeca, ddiod o ddŵr i'r dyn a'i gamelod. Hi oedd y ferch roedd Duw wedi'i dewis i fod yn wraig i Isaac.

Beth ofynnodd y dyn i Dduw ei wneud?

Gofynnodd y dyn i Dduw ei h __ __ __ __
i ddod o hyd i'r f__ __ ___ iawn

Lliwich y llun a'r adnod.

Dywedodd y dyn,

Arweiniodd yr Arglwydd fi.

Genesis 24: 27

Mae'r dyn yn gofyn i Rebeca a oes lle iddo aros yn ei chartref.
Mae hi'n dweud bod digon o le. Mae'r dyn yn diolch i Dduw am ei helpu.
Bydd Duw yn ein helpu ni hefyd os gofynnwn iddo.

Enw

DARLLENWCH
Genesis 24: 28-67

Mae'r stori yma'n sôn am:
Isaac yn priodi Rebeca

Stori 4 Dewis Duw

Rhedodd Rebeca adref i ddweud wrth ei theulu beth oedd wedi digwydd.
Yna, rhedodd ei brawd, Laban, i gwrdd â'r gwas ac i'w groesawu i'w cartref.

Dywedodd y gwas wrth deulu Rebeca bod Abraham wedi rhoi tasg arbennig iddo. Dywedodd mai Duw oedd wedi'i arwain at Rebeca. Gofynnodd y teulu i Rebeca a oedd yn fodlon mynd nôl gyda'r gwas i fod yn wraig i Isaac. Dywedodd Rebeca ei bod yn fodlon mynd.

Ar ôl taith hir, daethon nhw i gartref Isaac. Cyn hir, daeth Rebeca'n wraig i Isaac. Roedd Isaac yn caru Rebeca'n fawr iawn a buon nhw'n hapus iawn am eu bod yn gwybod mai Duw oedd wedi dod â nhw at ei gilydd.

Pwy oedd Duw wedi'i dewis i fod yn wraig i Isaac? R _ _ _ _ _ .
Lliwiwch y llun a'r adnod.

"Gwyn eu byd y bobl y mae'r Arglwydd yn Dduw iddynt."

Salm 144: 15

10

Byddwn ni'n hapus hefyd os dewiswn gael Iesu'n Waredwr ac yn Ffrind i ni.

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 1 A6

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120